

Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg

**1 Awst 2022 – 31 Gorffennaf
2023**



Mae fersiwn Saesneg o'r adroddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho ar wefan y Brifysgol a gellir cael copïau caled o'r fersiynau Cymraeg a Saesneg mewn swyddfeydd sydd ar agor i'r cyhoedd.

CYFLWYNIAD

Mae gan Brifysgol Wrecsam ddyletswydd gyfreithiol i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a osodir gan Gomisiynydd y Gymraeg. Hefyd, fel darparwr addysg, mae gan y Brifysgol ddyletswydd i hyrwyddo defnydd o'r iaith nid yn unig ymhlith ei gweithwyr a'i myfyrwyr, ond hefyd oddi mewn i randdeiliaid allanol eraill.

Caiff y modd y cydymffurfir â Safonau'r Gymraeg ei fonitro trwy gyfrwng strwythur pwyllgorau ffurfiol y Brifysgol, sef Pwyllgor Monitro'r Gymraeg sy'n cyfarfod deirgwaith y flwyddyn. Mae'r cyfrifoldeb dros fonitro a gydymffurfir â Safonau'r Gymraeg yn gorwedd gyda Chwnsler Cyffredinol y Brifysgol ac Ysgrifennydd y Brifysgol; mae'r cyfrifoldeb dros hyrwyddo defnydd o'r iaith ac ymwreiddio'r iaith yng nghwricwlwm ac arferion addysgol y Brifysgol yn gorwedd gyda'r Pennaeth Datblygu Cyfrwng Cymraeg.

Pe bai Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn am wybodaeth ynglŷn â sut y cydymffurfiwn â'r safonau, mae gennym ddyletswydd i gyflwyno'r wybodaeth honno. Rydym wedi parhau i ymgysylltu'n adeiladol â Chomisiynydd y Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd hwn ynglŷn â'n hymdrechion i hyrwyddo ac annog defnydd o'r Gymraeg.

Eleni, rhoddwyd Strategaeth Academaidd a Chynllun Gweithredu Cyfrwng Cymraeg (CYFLE) ar waith yn y brifysgol. Cymeradwywyd y strategaeth gan Fwrdd Academaidd y brifysgol a chan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. CYFLE yw'r strategaeth gyntaf o'i bath i'w rhoi ar waith yn y brifysgol, lle canolbwyntir ar wella, darparu a datblygu'r Gymraeg. Mae'r strategaeth yn ymgorffori ymrwymiad y brifysgol i'r Gymraeg a seilir ei hamcanion ar yr egwyddor bod y Gymraeg yn iaith ar gyfer pawb yn y brifysgol – staff, myfyrwyr, ymwelwyr a'r gymuned ehangach. Yn awr, mae gan staff a myfyrwyr ychwaneg o gyfleoedd i ymgysylltu â'r Gymraeg trwy gyfrwng llwybrau Cymraeg yn y Gweithle i fyfyrwyr a'r cynllun Gwaith Cymraeg i staff. Mae datblygu sgiliau Cymraeg wedi arwain at benodi tiwtor sgiliau Cymraeg amser llawn yn y brifysgol. Fel prifysgol, awn ati'n fynych i hyrwyddo mentrau Cymraeg swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, ynghyd â dathlu iaith a diwylliant Cymru. Er enghraifft, ar Ddydd Gŵyl Dewi dathlwyd y diwrnod trwy gynnal bore coffi a chanu caneuon Cymraeg gyda'n gilydd fel staff, dathlwyd y diwrnod Shwmai/Sumae gyda bore coffi i staff a myfyrwyr yn Undeb y Myfyrwyr, ac roeddem yn falch o gael mynychu'r Eisteddfod Genedlaethol yn Llŷn ac Eifionydd eleni, a gynhaliwyd am wythnos ym Moduan.

Yr Athro Maria Hinfelaar – Is-ganghellor a Phrif Weithredwr

CYDYMFFURFIO

Yn ôl Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae'n ofynnol i bob corff cyhoeddus yng Nghymru gydymffurfio â dyletswyddau iaith sy'n sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r dyletswyddau'n cynnwys annog pethau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg a mynnu y cynigir darpariaeth Gymraeg i'r cyhoedd.

Yn unol ag Adran 44 o Fesur 2011, cyflwynodd Comisiynydd y Gymraeg **Hysbysiad Cydymffurfio** i'r Brifysgol ar 29 Medi 2017. Roedd yr hysbysiad hwn yn cynnwys 178 o safonau unigol y mae'n ofynnol i'r Brifysgol gydymffurfio â nhw dan y themâu canlynol: darparu gwasanaethau, materion gweithredol, llunio polisïau a chadw cofnodion.

Mae'r Safonau'n nodi ein cyfrifoldebau o ran darparu gwasanaethau dwyieithog er mwyn sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Eu nod yw:

- dangos yn glir i'r Brifysgol beth yw ei dyletswyddau o ran y Gymraeg
- dangos yn gliriach i fyfyrwyr Cymraeg, staff Cymraeg ac aelodau Cymraeg o'r cyhoedd pa wasanaethau y gallant ddisgwyl i'r Brifysgol eu darparu yn y Gymraeg
- sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn fwy cyson, gan wella'u hansawdd.

Mae gan Gomisiynydd y Gymraeg ddyletswydd i fonitro a yw sefydliadau'n cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, gan ymchwilio i gwynion a thramgwyddau'n ymwneud â chydymffurfio. Mae gan y Comisiynydd bwerau i osod camau gorfodi, dyfarniadau llysoedd sirol a dirwyon.

Gweithredu Safonau'r Gymraeg

Pwyllgor Monitro'r Gymraeg

Sefydlwyd y pwyllgor hwn gan y Dirprwy Is-ganghellor ym mis Awst 2018 (ar ôl diddymu'r grŵp anffurfiol a fodolai'n flaenorol, sef Grŵp Monitro'r Gymraeg). Caiff ei gadeirio yn awr gan yr Is-ganghellor Maria Hinfelaar. Mae'r pwyllgor yn cynnwys aelodau o uwch-staff rheoli a staff gweithredol ar lefel briodol. Pwyllgor cynghori ydyw, nid oes ganddo bwerau penderfynu dirprwyedig ac mae'n un o Is-bwyllgorau Tîm Gweithredol yr Is-ganghellor. Yr Is-ganghellor sy'n gyfrifol am arwain Safonau'r Gymraeg yn strategol, o safbwynt cydymffurfio a hefyd o safbwynt ieithyddol. Caiff y dasg o roi darpariaethau'r Gymraeg ar waith o ddydd i ddydd ei gwneud gan y Pennaeth Datblygu Cyfrwng Cymraeg a Hyrwyddwr Cymraeg y Brifysgol. Cwnsler Cyffredinol y Brifysgol, Ysgrifennydd y Brifysgol a'r Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth a

Chydymffurfio sy'n gyfrifol am weithredu materion cydymffurfio o ddydd i ddydd. Mae'r cyfrifoldeb terfynol dros sicrhau bod y Brifysgol yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn gorwedd gyda'r Is-ganghellor.

Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod bedair gwaith bob blwyddyn Academiaidd, yn unol â'i Gylch Gwaith.

Caiff yr Adroddiad Blynyddol hwn ei adolygu gan y pwyllgorau canlynol o fewn y Brifysgol – hynny yw, pwyllgorau lle nodir yn eu Cylch Gwaith ei bod yn ofynnol iddynt fonitro a yw'r Brifysgol yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg:

- *Pwyllgor Monitro'r Gymraeg*
- *Tîm Gweithredol yr Is-ganghellor*
- *Pwyllgor Adnoddau Dynol y Bwrdd*

Rôl a swyddogaeth y pwyllgor hwn yw ategu Safonau'r Gymraeg a chynorthwyo i gydymffurfio â nhw trwy'r Brifysgol, fel y nodir isod:

1. **Polisïau a Gweithdrefnau** – Sicrhau bod y polisïau a'r gweithdrefnau perthnasol yn cydymffurfio â'r holl deddfwriaeth berthnasol, gan fonitro'r modd y'u rhoddir ar waith a sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau o'r fath yn cael eu diweddarau o dro i dro.
2. **Rheoli Risgiau** – goruchwyllo'r gwaith o weithredu strategaethau/polisïau sy'n gysylltiedig â deddfwriaeth a monitro cydymffurfedd yn erbyn deddfwriaeth o'r fath. Sicrhau bod y Brifysgol yn mynd ati mewn modd priodol ac amserol i gadw cofnodion a llunio adroddiadau, fel y nodir yn Hysbysiad Cydymffurfio'r Brifysgol.
3. **Ymarfer** – Hyrwyddo a meithrin diwylliant lle rhoddir pwys ar wella ansawdd a rhannu arferion da mewn perthynas â'r Gymraeg; sicrhau bod gwybodaeth o'r radd flaenaf, ynghyd â chanllawiau a chymorth angenrheidiol, ar gael wrth ddarparu gwasanaethau; a helpu i egluro'r modd y dehonglir Safonau perthnasol a'r modd y gellir sicrhau bod ymarfer y Brifysgol yn cydymffurfio.
4. **Cyfathrebu a datblygu staff** – Datblygu a goruchwyllo'r modd y rhoddir rhaglen gyfathrebu a hyfforddi ar waith i godi ymwybyddiaeth y Brifysgol (ac eraill, fel y bo'n briodol) o bob agwedd ar y Gymraeg, gan roi cyngor priodol mewn ymateb i ddigwyddiadau a chan gynorthwyo'r staff i feithrin y sgiliau a'r ymddygiadau sy'n angenrheidiol i sicrhau y cydymffurfir â'r safonau.
5. **Cwynion** – Derbyn adroddiadau a gwneud argymhellion ynglŷn â chamau gweithredu, gan fynd ar drywydd unrhyw gwynion (yn cynnwys cwynion yn

ymwneud â Safonau'r Gymraeg, ymhlith rhai eraill); a phan fo'n briodol, cymryd neu argymell camau unioni a monitro'r camau a gymerir.

Safonau Gweithredol:

Gohebiaeth ysgrifenedig

Os na fyddwn yn gwybod beth yw dewis iaith y sawl rydym yn cysylltu ag ef, neu pan fyddwn yn ysgrifennu at grwpiau o bobl, megis trwy ddefnyddio cylchlythyrau e-bost, bydd yr holl ohebiaeth gychwynol yn ddwyieithog, a bydd y testun Cymraeg yn cael ei osod ar y chwith neu ar y brig, er mwyn sicrhau ei fod yn ymddangos o flaen y testun Saesneg. Pan fyddwn yn gwybod beth yw'r dewis iaith, byddwn yn cyfathrebu yn yr iaith honno. Pan fydd rhywun yn ysgrifennu atom yn y Gymraeg a'r Saesneg, byddwn yn cynnig ymateb dwyieithog.

Mae ein papur pennawd yn cynnwys datganiad sy'n nodi y croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg, a nodir na fydd defnyddio'r Gymraeg yn arwain at unrhyw oedi cyn ymateb.

Mae ein llofnodion e-bost a/neu ein troedynnau e-bost yn nodi ein bod yn fodlon derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg ac y bydd ein hamseroedd ymateb yr un fath ar gyfer y ddwy iaith yn achos gweithwyr sy'n siaradwyr Cymraeg rhugl neu'n ddysgwyr; maent yn cynnwys logos Cymraeg yn y Gweithle (gan ddangos hefyd y cydymffurfir â safon weithredol 128); ac maent yn cynnwys teitlau swyddi dwyieithog a manylion cyswllt dwyieithog (gan ddangos hefyd y cydymffurfir â safon weithredol 129).

Caiff pob un o'n hymatebion 'allan o'r swyddfa' eu hanfon yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Galwadau ffôn

Mae ein prif rif ffôn yn cysylltu â system ffôn awtomatig sy'n cyfarch y galwr yn ddwyieithog (y Gymraeg yn gyntaf). Yna, mae'r system yn galluogi'r galwr i ddewis a yw'n dymuno siarad â rhywun yn y Gymraeg ynteu'r Saesneg. Rydym wedi rhoi cyfarwyddyd i'n gweithwyr ynglŷn â sut i ddelio â galwadau er mwyn sicrhau y bydd y rhai sy'n galw yn cael y gwasanaeth gorau yn eu dewis iaith.

Cyfarfodydd

Wrth drefnu cyfarfodydd gyda phobl allanol, byddwn yn cadarnhau dewis iaith y mynychwyr ymlaen llaw ac yn cynnig gwasanaeth cyfieithu ar y pryd pe bai angen.

Mae'r Brifysgol yn cynnal ei chyfarfodydd mewnol yn y Saesneg. Fodd bynnag, byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd llawn os gofynnir inni wneud hynny.

Bydd unrhyw gofnodion a gyhoeddir ar wefan y Brifysgol yn cael eu cyflwyno yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Digwyddiadau

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cynnal amryfal ddigwyddiadau allanol i hyrwyddo ein gwaith ac i ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Lansiwyd diwrnod cyfleoedd Cymraeg lle gwahoddwyd ysgolion a cholegau addysg bellach lleol i ddod ar y campws i gyfarfod â staff academiaidd Cymraeg a dysgu am y cyfleoedd Cymraeg a gynigiwn. Erbyn hyn, mae holl ddiwrnodau agored y brifysgol yn hyrwyddo'r Gymraeg ac mae staff wrth law i gyfarfod a chyfarch teuluoedd Cymraeg. Cynhaliodd Prifysgol Wrecsam ei digwyddiad Sgriblwyr Gŵyl y Gelli cyntaf lle cafwyd siaradwyr allanol a lle bu ein Pennaeth Datblygu Cyfrwng Cymraeg yn cyflwyno gerbron cannoedd o blant ysgol.



Mae ein seremonïau graddio yn ddwyieithog a chânt eu cyflwyno yn y Gymraeg yn gyntaf gan areithydd y brifysgol. Yn yr Hydref, lansiodd y brifysgol ei brand newydd a chynhaliodd ddigwyddiad ailfrandio mewnol ac allanol yn ddwyieithog. Cynhaliodd y brifysgol Gyfarfod Agored Blynyddol, gan wahodd amryfal rhanddeiliaid a chyfeillion. Cynhaliwyd y digwyddiad hwn yn ddwyieithog ac fe'i hwyluswyd gan areithydd y brifysgol. Yn ystod y rhaglen Sgyrsiau Ymchwil, mae'r swyddfa ymchwil yn sicrhau bod modd defnyddio'r Gymraeg trwy ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu trwy wneud yn siŵr bod aelod o staff sy'n eiriolwr y Gymraeg yn bresennol. Mae'r Coleg Cymraeg wedi ymweld â'r Brifysgol ddwywaith i gyfarfod â'r staff a'r myfyrwyr. Rydym yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd llawn ym mhob digwyddiad cyhoeddus a drefnwn, gan alluogi'r cyflwynwyr a'r gynulleidfa i gymryd rhan yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

Caiff holl ddigwyddiadau allanol y Brifysgol eu cynnal yn ddwyieithog a chynigir cyfle i ofyn cwestiynau ar lafar yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Mae holl gyflwyniadau PowerPoint y digwyddiadau hyn yn ddwyieithog.

Hefyd, gofynnwn i'r mynychwyr a ydynt yn dymuno cael gwasanaeth cyfieithu ar y pryd, a phan fo angen gwasanaeth o'r fath, byddwn yn ei ddarparu.

Rydym yn darparu is-deitlau Cymraeg ar gyfer pob recordiad o'r digwyddiadau a lanlwythir ar ein gwefan. Hefyd, rydym yn mynychu digwyddiadau, yn cynnwys diwrnodau agored prifysgolion a ffeiriau recriwtio. Rydym yn sicrhau bod o leiaf un o'r gweithwyr sy'n mynychu digwyddiadau o'r fath yn siaradwr Cymraeg.

Eleni, am y tro cyntaf ers deg mlynedd, mynychodd y brifysgol faes yr Eisteddfod. Bu Elen Mai Nefydd, Pennaeth Datblygu Cyfrwng Cymraeg, yn gweithio gyda chydweithwyr i fynd â chwt y brifysgol i'r Eisteddfod. Yn ogystal â chwt y brifysgol, cyflwynodd dau aelod o'r tîm perthynol i iechyd weithdai'n sôn am ddarpariaethau Cymraeg ar stondin y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.



Bu modd inni hyrwyddo'r brifysgol ar lwyfan cenedlaethol a llwyddwyd i gael sylw mewn datganiadau i'r wasg drwy gydol yr wythnos. Hefyd, daeth Vaughan Gething, Gweinidog yr Economi, i ymweld â ni ar y dydd Mercher, ac roedd ganddo ddiddordeb mawr yn ein datblygiadau Cymraeg, yn ogystal â'n henw a'n brand newydd.

Arwyddion, hysbysiadau, cyhoeddusrwydd, deunyddiau hyrwyddo, dogfennau a ffurflenni

Yn achos deunyddiau ar gyfer myfyrwyr a rhanddeiliaid allanol, mae'r Brifysgol naill ai'n eu llunio'n ddwyieithog, gan osod y testun Cymraeg ar y chwith neu ar y brig er mwyn iddo ymddangos o flaen y testun Saesneg, neu cânt eu llunio ar ffurf fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Mewn fersiynau Saesneg, rhoddir gwybod i'r darllenydd bod y deunydd ar gael hefyd yn y Gymraeg (gan ddangos y cydymffurfir â safonau gweithredol 136, 137 a 138).

Y wefan a'r cyfryngau cymdeithasol

Mae ein gwefan a'n gwasanaethau gwe cysylltiedig yn gwbl ddwyieithog a gall defnyddwyr symud yn ôl a blaen yn rhwydd o un iaith i'r llall.

Mae ein prif gyfrifon cyfryngau cymdeithasol ar [Twitter](#), Facebook ac [YouTube](#). Rydym yn postio pob trydariad a neges yn y Gymraeg a'r Saesneg mewn un ffrwd.

Rydym yn ymateb i negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol yn yr un iaith â'r ymholiad gwreiddiol. Caiff fideos ar ein sianel YouTube eu postio yn y Gymraeg a'r Saesneg pa bryd bynnag y bo modd. Rydym yn darparu is-deitlau Cymraeg a Saesneg pan fydd y sawl a gaiff ei gyfweld yn siarad mewn un iaith.

Y Rheolwr Cyfathrebu sy'n gyfrifol am ein cynnyrch cyfryngau cymdeithasol.

Polisïau a Gweithdrefnau

Yn achos yr holl bolisïau a gweithdrefnau a gyflwynir i'w cymeradwyo, bydd Ffurflen Asesu'r Effaith ar y Gymraeg yn cael ei llenwi i ddangos na fydd cyflwyno polisïau a gweithdrefnau o'r fath yn cael effaith niweidiol ar y Gymraeg.

Hefyd, mae gennym Bolisi Iaith Gymraeg. Caiff ei adolygu bob tair blynedd neu pan gaiff newidiadau deddfwriaethol priodol eu cyflwyno.

Caiff y polisïau, y gweithdrefnau neu'r dogfennau a lwythir ar wefan y Brifysgol eu darparu yn y Gymraeg a'r Saesneg.



Cwynion

Derbyniodd y Brifysgol dair cwyn anffurfiol yn 2022/2023. Roeddynt yn ymwneud â deunydd uniaith Saesneg yng nghanfîn y campws, teitl Cymraeg anghywir ar dudalen we a chamgymeriadau sillafu yn fersiwn Gymraeg un o'n tudalennau gwe recriwtio ar y cyfryngau cymdeithasol.

Ni dderbyniwyd unrhyw gŵyn ffurfiol yn ystod 2022/2023.

Hapwiriadau mewnol

Mae gan y Brifysgol system reoli fewnol sy'n golygu bod y tîm Llywodraethu Gwybodaeth a Chydymffurfio yn cynnal hapwiriadau (oddi mewn ac oddi allan), gan hysbysu cydweithwyr priodol yn yr adrannau ynglŷn ag unrhyw faterion y deuir ar eu traws, fel y gellir eu cywiro. Caiff manylion am y materion hyn a'r camau a gymerir i ymdrin â nhw eu cyflwyno gerbron Pwyllgor Monitro'r Gymraeg.

Yn ystod y cyfnod sy'n berthnasol i'r adroddiad hwn, daethpwyd ar draws y materion hyn a thynnwyd sylw cydweithwyr atynt:

- ◇ Negeseuon 'allan o'r swyddfa' awtomatig a oedd yn cynnwys testun uniaith Saesneg neu negeseuon lle nad oedd y testun Cymraeg yn cyd-fynd â'r testun Saesneg.
- ◇ Rhai deunyddiau a arddangoswyd i'r cyhoedd yn y Saesneg yn unig.

Mae'r Brifysgol yn cynnal hapwiriadau trwy'r holl gampws.

RECRIWTIO

Yn 2022/2023, cysylltodd y Brifysgol â Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i ofyn am gyngor ynglŷn â recriwtio siaradwyr Cymraeg gan ein bod wedi cael trafferth i lenwi swyddi a chan fod Pwyllgor Monitro'r Gymraeg wedi crybwyll y mater. Anfonodd Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg y ddogfen ganlynol atom: [Recriwtio: Dogfen Gyngor Arferion Da](#).

Cafwyd rhagor o gyngor, a gwelwyd bod Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn annog sefydliadau i ddefnyddio fframwaith cydnabyddedig i asesu Sgiliau Cymraeg eu gweithwyr; ac er nad yw safon 134 yn nodi sut i fynd ati'n benodol i asesu sgiliau iaith, mae'r Brifysgol yn awyddus i ddangos gwell cysondeb o ran cofnodi sgiliau Cymraeg ei gweithwyr, er mwyn cynorthwyo i gasglu data am y gweithlu dwyieithog. Mae'r Brifysgol wedi llunio a chyflwyno system Adnoddau Dynol a Chyflogres newydd, a bydd modd i'r system hon gasglu gwybodaeth fanylach am lefelau Cymraeg yn ystod 2023-2024.

Mae'r Brifysgol wedi cyflwyno fframwaith arbennig. Yn ôl y fframwaith hwn, cyn dechrau'r broses recriwtio bydd y rheolwr llinell a'r cyfarwyddwr perthnasol yn defnyddio ein ffurflen recriwtio bwrpasol i werthuso'r angen am y swydd ac i bennu natur y swydd, yn cynnwys yr angen am sgiliau Cymraeg. Yna, bydd y broses recriwtio yn ei chyfanrwydd yn cael ei chwblhau yn y Gymraeg a'r Saesneg neu'n ddwyieithog, yn cynnwys yr hysbyseb swydd (gan gynnwys y categori sgiliau Cymraeg), yr holl wybodaeth ategol, y ffurflen gais a'r ohebiaeth gydag ymgeiswyr.

Wrth hysbysebu swyddi lle nodir bod y Gymraeg yn hanfodol, defnyddiwn wefannau recriwtio Cymraeg. Yn y cyfweiliad, bydd o leiaf un aelod o'r panel dethol yn siaradwr Cymraeg rhugl a bydd yn gofyn o leiaf un cwestiwn i'r ymgeisydd yn y Gymraeg, gan fynnu bod yr ymgeisydd yn ateb yn y Gymraeg.

Ar ein ffurflen gais, gall ymgeiswyr nodi a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn ystod y cyfweiliad, neu yn ystod unrhyw ddull asesu arall. Hefyd, esbonnir ar y ffurflen gais y byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu pe bai angen. Pan fyddwn yn cynnig swydd newydd, gofynnwn i'r unigolyn a yw'n dymuno cael unrhyw ohebiaeth ffurfiol, yn cynnwys y contract cyflogaeth, yn y Gymraeg.

Yn ystod y flwyddyn dan sylw, aethom ati i hysbysebu swyddi newydd a swyddi gwag (fel y nodir isod): Safon 145/145A – Mewn perthynas â nifer yr hysbysebion ar gyfer swyddi gwag yn 2022/2023 – gweler y data isod.

01/08/2022 hyd at 31/07/2023

	Academaidd	Gwasanaethau Proffesiynol	Cyfanswm
Y Gymraeg yn hanfodol	1	1	2
Y Gymraeg yn ddymunol	66	171	237
Nid oedd angen sgiliau Cymraeg	0	0	0
Cyfanswm yr hysbysebion			239

SGILIAU CYMRAEG

Mewn perthynas â Safonau 134/158, rhoddodd y Brifysgol system AD newydd ar waith ym mis Awst 2022. Cyflwynwyd y modiwl Hunanwasanaeth i Weithwyr ym mis Hydref 2022. Y bwriad oedd cynnal arolwg staff yn ystod 2022/2023 i gasglu gwybodaeth am Sgiliau Cymraeg. Fodd bynnag, oherwydd trafferthion technegol yn ymwneud â gweithredu'r system hunanwasanaeth i weithwyr (e.e. cyflwyno'r modiwl adolygu perfformiad a datblygiad), yn awr bydd yr arolwg yn cael ei gynnal yn ystod 2023/2024.

Bydd canlyniadau'r arolwg ar gyfer 2023/2024 ar gael erbyn diwedd y Flwyddyn Academaidd.

DARPARU A GWELLA GWASANAETHAU CYFRWNG CYMRAEG

Mae CYFLE, sef ein Strategaeth Academaidd a'n Cynllun Gweithredu Cyfrwng Cymraeg, yn atebol i'r canlynol: Y Pwyllgor Dysgu, Addysgu ac Ansawdd; y Pwyllgor Mynediad, Dysgwyr ac Ymgysylltu; y Bwrdd Academaidd; a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Cwblhawyd adolygiad a diweddariad blynyddol ar gyfer y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ym mis Tachwedd 2022, yn ogystal ag adolygiad canol-blwyddyn ddiwedd mis Mai 2023.


Yn awr, bydd taflenni marcio'n cynnwys adran arbennig lle gall staff academaidd gofnodi gweithgareddau dysgu ac addysgu cyfrwng Cymraeg. Dolen ar gyfer y ffurflen: <https://forms.office.com/e/6chzaQ0zRg>

Mae'r data fel a ganlyn:

Mae 10 o fyfyrwyr ar 40 credyd neu fwy

Mae 23 o fyfyrwyr ar 5 credyd neu fwy

Mae 40 o fyfyrwyr ar 20 credyd.



Cwblhawyd Cynlluniau Gweithredu Rhaglenni a Modiwlau Cyfrwng Cymraeg ar gyfer y rhaglen Therapi Iaith a Lleferydd a chafwyd cymeradwyaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ym mis Mai. Erbyn hyn, cynigir 40 credyd trwy gyfrwng y Gymraeg ar y rhaglen ers mis Medi 2023. Mae gwaith yn dal i fod ar y gweill mewn perthynas â'r Gyfraith a Therapi Galwedigaethol erbyn 2023 ar gyfer 20 credyd yn y Gymraeg. **Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi cymeradwyo 40 credyd** ac mae'r brifysgol yn gymwys i gynnig ysgoloriaethau cymhelliant am y tro cyntaf. Isod, gweler yr ymgyrch cysylltiadau cyhoeddus a gynhaliwyd yn ddiweddar ynglŷn â datblygu'r rhaglen newydd ar gyfer Therapi Iaith a Lleferydd, yn ogystal â ffilm farchnata ddwyieithog fer.

[Rhaglen Therapi Iaith a Lleferydd](#)

Mae gwaith ar y gweill i drosglwyddo'r modiwl Dysgwr Hyderus a'r modiwl Cynefino i'r Gymraeg, y ddau yn fodiwlau 20 credyd. Mae'r radd Plismona yn cynnig sgiliau Cymraeg ar gyfer yr holl fyfyrwyr Lefel 4 ym mis Medi 23 a bydd hyn yn galluogi'r myfyrwyr i adael gyda rhuglder Lefel 2 yn y Gymraeg, sy'n angenrheidiol ar gyfer gweithio mewn heddluoedd ledled Cymru.

Mae cangen Gymraeg y Tîm Datblygu Academiaidd yn ysgwyddo cyfrifoldebau dros

hyrwyddwyr Cymraeg oddi mewn i raglenni, a thynnir sylw at fywgraffiadau'r staff mewn blog ar y fewnwyd trwy gyfrwng Sgyrsiau'r Campws. Cyflwynodd y Pennaeth Datblygu Cyfrwng Cymraeg ddau Ginio Dysgu, un ym mis Chwefror yn ymwneud â'r strategaeth newydd ac un ym mis Medi yn ymwneud â chwalu'r mythau sy'n perthyn i addysgu dwyieithog.

Yn dilyn llwyddiant y diwrnod cyfleoedd Cymraeg/Dwyieithog a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr 2022, ein bwriad yw cynnal diwrnod arall o'r fath ym mis Rhagfyr 2023.

Ym mis Awst, mynychodd y brifysgol yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhwlheli. Roedd aelodau o'r tîm recriwtio yno, yn ogystal â staff academiaidd o gangen y Coleg. Yn ystod yr wythnos, cynhaliodd aelodau o'r tîm perthynol i iechyd weithdai trwy gyfrwng y Gymraeg ar stondin y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. [Yr Eisteddfod Genedlaethol](#)



Mae'r brifysgol wedi datblygu gweithgareddau Cymraeg ar gyfer Prifysgol y Plant.

Cwblhaodd 6 aelod o staff y cynllun Cymraeg yn y Gwaith. Gweler y datganiad isod sy'n dathlu eu llwyddiannau.

[Cynllun Cymraeg yn y Gwaith](#)

Ym mis Awst a mis Medi 2022 ac ym mis Medi 2023, cyflwynodd y Pennaeth Datblygu Cyfrwng Cymraeg sesiynau cynefino i staff newydd. Cafwyd cymeradwyaeth ar gyfer adnodd hyfforddi ar-lein i staff yn ymwneud ag ymwybyddiaeth o'r Gymraeg trwy gyfrwng hyfforddiant gorfodol ynglŷn â'r Gymraeg. Llwyddwyd i gael cyllid ar gyfer mis Medi 2023 trwy gyfrwng Canolfan yr Iaith Gymraeg gogyfer cynnig hyfforddiant Cymraeg 3 lefel i staff, yn ogystal â chynllun Gwaith Cymraeg + ar gyfer dau aelod o staff. Erbyn hyn, caiff sesiynau Coffi a Chlonc eu cynnal bob pythefnos – mae'r sesiynau hyn yn boblogaidd ymhlith y staff a bellach mae aelodau rheolaidd yn arwain rhai ohonynt.

Caiff cyrsiau iaith dwys a gynhelir yn Nant Gwrtheyrn dros yr haf eu hysbysebu ymhlith ein staff. Eleni, rhoddwyd gwobr hyrwyddwr Cymraeg ar waith am y tro cyntaf yn Undeb y Myfyrwyr ac fe'i henillwyd gan aelod o staff sydd wedi cyrraedd ei thrydedd flwyddyn yn y cynllun Gwaith Cymraeg. Hefyd, mae hi wedi cael ei chydabod yn adroddiad blynyddol Gwaith Cymraeg fel astudiaeth achos ragorol.

Cyfarfu'r Pennaeth Datblygu Cyfrwng Cymraeg a'r Rheolwr Cyngor ac Arweiniad Myfyrwyr â Phrifysgol Bangor i weld a fyddai modd rhannu adnoddau Cymraeg gyda ni fel prifysgol er mwyn cefnogi iechyd meddwl a llesiant y myfyrwyr. Erbyn hyn, mae Elen Williams o Fangor yn rhannu adnoddau myf.cymru gyda ni fel prifysgol. <https://myf.cymru/>

Sefydlwyd cangen y Coleg Cymraeg yn y brifysgol. Mae'n cynnig cyfle i drafod materion academiaidd y Coleg Cymraeg gyda staff a myfyrwyr y brifysgol. Cynhaliwyd un o gyfarfodydd y gangen ym mis Mawrth ac fe'i mynychwyd gan Ffion Hughes, un o Reolwyr Academiaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Cynhaliwyd cyfarfod arall ym mis Ebrill a chynhaliwyd yr olaf ym mis Mehefin. Mae'r dyddiadau ar gyfer 2023/2024 yng nghalendrau Outlook y staff.

Coffi a Chlonc
Coffee and Chat

Bore coffi i staff a myfyrwyr Wrecsam fedru cyfarfod ag ymarfer yr iaith Gymraeg mewn awyrgylch croesawgar ac agored.
A coffee morning to enable Wrexham staff and students to meet and practice their Welsh language skills in a relaxed, safe and open environment.

11th Rhagfyr, 12yp 11th December, 12pm
Campws Llanellwy St. Asaph Campus
Uned 15 Unit 15

Prifysgol Wrecsam
Wrexham University

W



Neilltuwyd aelodau staff craidd a bellach mae gan y gangen gynrychiolydd myfyrwyr. Bydd cynrychiolydd y myfyrwyr hefyd yn cynrychioli'r brifysgol ar Fwrdd Academiaidd y Coleg Cymraeg. Bydd rôl ar gyfer swyddfa gangen y Coleg Cymraeg yn y brifysgol yn cael ei hysbysebu a bydd tudalen yn cael ei dylunio ar gyfer cangen y Coleg Cymraeg. Bydd y dudalen yn cyfeirio myfyrwyr at aelodau'r gangen, cyfleoedd Cymraeg megis y dystysgrif sgiliau Cymraeg a digwyddiadau Cymraeg a dwyieithog yn y brifysgol.

Hefyd, mae staff y gangen yn mynychu paneli pwnc y Coleg Cymraeg 4 – Y Gyfraith, Seicoleg, Gwaith Cymdeithasol, ac Iechyd.

Mae'r Pennaeth Datblygu Cyfrwng Cymraeg wedi mynychu holl baneli Academiaidd a phaneli Bwrdd Cyngori'r Coleg ers mis Medi.

Cyflwynwyd archwiliad o ddogfennau ac adolygiad o'r ddarpariaeth sgiliau Cymraeg i'r Coleg ddiwedd mis Ionawr 2023 a phenodwyd tiwtor Cymraeg amser llawn ar gyfer y brifysgol ym mis Hydref 2023. Hefyd, ddechrau mis Mai 2023 ymatebodd aelodau'r gangen i gais y Coleg am adborth ar rôl Bwrdd Academiaidd y Coleg yn y dyfodol.

Mae'r brifysgol wedi ymateb i'r ymgynghoriad ynglŷn â **?????? Llywodraeth Cymru**.

CYNLLUN GWAITH 2023-24


Mae Cynllun Gweithredu diwygiedig CYFLE yn adeiladu ar waith a sefydlwyd yn 2022/23, gyda rhagor o ddatblygiadau'n ymwneud â'r ddarpariaeth Gymraeg, yn cynnwys:

- Cynnydd yn nifer y myfyrwyr Cymraeg/dwyieithog a thwf parhaus mewn credydau cyfrwng Cymraeg.
- Diogelu hawl gyfreithiol myfyrwyr i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg a chael gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

- Cynnig cyfleoedd newydd i fyfyrwyr sy'n astudio ym Mhrifysgol Wrecsam, megis Tystysgrif Iaith Gymraeg a darpariaeth Gymraeg yn y Gweithle y tu allan i raglenni ac eleni o fewn rhaglenni.
- Cyfrannu at fenter y Llywodraeth i gael miliwn o siaradwyr Gymraeg erbyn 2050 trwy barhau i weithio mewn partneriaeth â Chanolfan yr Iaith Gymraeg a thrwy gynyddu lefel y ddarpariaeth Gymraeg i staff.
- Cyfrannu at wella gweithlu dwyieithog trwy ddatblygu gwaith rhyngbroffesiynol Gymraeg mewn modiwlau iechyd a lleoliad mewn meysydd perthynol i iechyd.
- Cryfhau cysylltiadau cymunedol a diwylliannol cyn i'r Eisteddfod Genedlaethol ymweld â Wrecsam yn 2025 a chyn cyflwyno'r cais Dinas Diwylliant yn 2029, gan wella ein cenhadaeth ddinesig.
- Cyflwyno cyfleoedd yn ymwneud â'r Gymraeg a diwylliant Cymru i fyfyrwyr rhyngwladol Prifysgol Wrecsam.
- Cryfhau ein system tiwtoriaid personol trwy gyfrwng y Gymraeg ac adolygu unrhyw ddarpariaeth Gymraeg trwy ddefnyddio'r system Gwerthuso Monitro Parhaus oddi mewn i gyfadrannau.
- Datblygu ymhellach ddeunyddiau dysgu ac addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

RHAGOR O WYBODAETH/RHOI ADBORTH

I gael rhagor o wybodaeth am y modd y mae'r Brifysgol yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, neu os dymunwch roi adborth adeiladol inni ynglŷn â'r ddarpariaeth Gymraeg, anfonwch e-bost i'r cyfeiriad canlynol: welshcompliance@wrexham.ac.uk



Infographic featuring a portrait of Eirian Thomas, HR Business Partner at Wrexham University. The background is decorated with blue icons: a cloud, a smiling star, a pair of lips, a lightning bolt, a pair of eyes with glasses, a book, and a magnifying glass. The text is enclosed in a blue-outlined box with a white background.

Welsh is my first language and I speak it at home. I am also fortunate to use my Welsh skills at work in several projects.

I give advice in Welsh to staff in multiple formats. This could be when holding a face-to-face meeting, on the phone, or in an online meeting as well as communicating by email.

I often take calls to the Human Resources department from anyone who wishes to chat in Welsh.

Part of my role is to ensure that the work produced by the Human Resources department complies with the standards of the Welsh language.

Eirian Thomas
HR Business Partner, Wrexham University

#DefnyddiaDyGymraeg

Cymraeg



Infographic featuring a portrait of Cerys Alonso, Associate Dean at Wrexham University. The background is decorated with blue icons: a cloud, a smiling star, a pair of lips, a lightning bolt, a pair of eyes with glasses, a book, and a magnifying glass. The text is enclosed in a blue-outlined box with a white background.



"Rydw i'n dysgu cymraeg yn y gwaith felly gallaf siarad gyda myfyrwyr a ymwelwyr."

"I'm learning Welsh at work so I can talk to students and visitors."

Cerys Alonso,
Deon Cywllt: Sicrhau Ansawdd a Phrofiad Myfyrwyr
Associate Dean: Quality and Student Experience

#DefnyddiaDyGymraeg

Cymraeg



Cymraeg yw fy mamiaith ac iaith yr aelwyd. 'Dwi'n ei ddefnyddio bob dydd, drwy'r dydd gyda fy nheulu, ffrindiau a'r gymuned leol. Mae hyd yn oed fy nghi, Llew, yn iaith gyntaf Cymraeg ac i brofi hyn, dim ond yn y Gymraeg mae'n gwrando arna i!

Yn fy ngwaith, dwi'n defnyddio'r Gymraeg i sgwrsio gyda fy nghydweithwyr a'r myfyrwyr yn ddyddiol. Dwi'n falch o allu darparu cefnogaeth tiwtor personol yn y Gymraeg fel bod y myfyrwyr yn gallu trafod materion personol yn eu hiaith gyntaf. Mae'r myfyrwyr nyrsio yn cael profiadau heriol ac emosynol tra eu bod ar leoliad ac felly mae gallu cael sgwrs yn yr iaith sydd mwyaf naturiol a chartrefol iddynt yn hollbwysig. 'Dwi'n angerddol dros hyrwyddo pwysigrwydd yr iaith mewn gofal iechyd ac yn annog pawb i feddwl am y gwahaniaeth all ambell air wneud i brofiad claf neu deulu.

Awel Wynne-Williams
Darlithydd Nyrsio, Prifysgol Wrecsam

#DefnyddiaDyGymraeg

